**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 473 (Cy. 117)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Ebrill 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *27 Ebrill 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *25 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**3**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Mai 2022.

(3) Mae rheoliad 3 yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

(**1**) 1998 p. 30; Gweler adran 43(1) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i fod i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2015 dccc 1. Gweler adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 9BA(1)(a) o'r Atodlen, yn lle "blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" rhodder "blwyddyn academaidd ar y cwrs".

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 13F(2) o Atodlen 4, yn lle "myfyriwr cymwys" rhodder "myfyriwr ôl-raddedig cymwys".

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

25 Ebrill 2022

(**4**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/1365 (Cy. 360); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**5**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/79 (Cy. 28); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"), a

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau yn Rheoliadau 2015 a Rheoliadau 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.